

Pasg Hapus!

Mae mwynhad llawer mwy pan mae'n annisgwyl. Dwi ddim yn meddwl bod neb ohonom ni wir wedi disgwyl mwynhau gweithio ar ddydd Sul oer a gwlyb yn y goedwig. Os ydw i'n rhydd ar ddiwrnod gwirfoddoli, dw i'n teimlo mai fy nyletsydd i wirfoddoli yw hi, rhan o fy ymrwymiad i'r Goedwig Dragwyddol.

Mae bob amser yn dda gweld gwirfoddolwyr eraill ond ar ddiwrnod fel dydd Sul diwethaf... wel, fe'i rhoddaf fel hyn: ni fyddwn i wedi dewis bod y tu allan. Ond fe wnes i fwynhau mewn gwirionedd! Er gwaethaf y glaw. A'r oerfel. A'r traul a'r rhwyg ar fy nghyhyrau. Roeddwn i'n teimlo'n dda - nid yn unig wedyn, ond ar y pryd. Rhyfedd? Efallai ddim.

Mae treulio amser y tu allan yn y golau (hyd yn oed ar ddiwrnod diflas) yn codi ein hwyliau. Mae bod mewn coedwig, anadlu awyr y coed, yn dda i'r system imiwnedd. Mae gwneud pethau mewn grŵp cymdeithasol, er achos cyffredin, yn dda i ni. Ac mae gwirfoddoli yn y goedwig yn dod â'r holl fuddion hyn. Yn ddigon rhyfedd gallai gwneud hyn ar ddiwrnod gwlyb fod hyd yn oed yn well i ni na gwirfoddoli pan mae hi'n heulog.

Roeddwn i'n teimlo'n falch, ac rwy'n credu bod y lleill hefyd, o fod yno'r diwrnod hwnnw, ac yn falch o'r hyn a gyflawnwyd gennym. Penderfynon ni lanhau Llwybr y Fioled. Roedd angladd i fod yno ac, er bod Steve wedi cloddio bedd perffaith, roedd y llwybr gerllaw mor orlawn fel y byddai wedi bod yn anodd tynnu'r cart gyda'r arch i fyny yno. Byddai'r cludwyr wedi cael eu hymosod gan ddeiriogi yr holl ffordd i fyny, byddai olwynion y cart wedi suddo i dyllau, ac mae'n debyg y byddai unrhyw un ar sgwter symudedd wedi llithro i bobman ar lystyfiant llaith. Roedd y llwybyr mewn cyflwr ofnadwy. O dan yr holl lystyfiant roeddwn i'n gwybod bod llwybr wedi'i greu yn dda. Roeddwn i'n gwybod hynny oherwydd fy mod i'n cofio sut y cafodd y llwybr ei adeiladu'n wreiddiol, er na fyddai ymwelwyr wedi gwybod. Roeddwn i'n gwybod mai'r cyfan oedd ei angen oedd crafu a rhawio a chribinio a thynnu'r deiriogi allan i ddatgelu'r garreg oddi tano. A dyna'n union a wnaeth y gwirfoddolwyr dydd Sul. Fe wnaethon ni ddod o hyd i lwybr llechi gwyach, digon llydan i'r cart

a'r cludwyr ar y naill ochr a'r llall iddo. Roedden ni wedi gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith i greu llwybr i'r bedd erbyn amser cinio ac roedden ni i gyd yn barod am ddanteithion. Hambwrdd hardd o byns croes poeth,

wedi'u pobi'n ffres gan Tracey (mae hi'n bobydd rhagorol!) a phef mawr hyfryd, wedi'i stwffio i'r crwst ag afalau a mafon blasus Pwllheli o fy rhewgell. Roedden ni'n haeddu'r gorau a dyna gawson ni.

Mae rhywbeth arbennig am rannu bwyd. Mae'n rhan bwysig o bob diwylliant, mae'n dweud ein bod ni'n gofalu am ein gilydd. A gofalu - am natur yn ogystal ag aelodau teulu dynol ac an-ddynol - yw hanfod y Goedwig Dragwyddol.

Felly rydyn ni'n rhannu bwyd ym mhob Diwrnod Gwirfoddoli.

Pan oedd y gwaith wedi'i orffen a phawb arall wedi mynd adref, arhosais ar ôl am ychydig i werthfawrogi'r goedwig. Roedd y glaw wedi stopio ac roedd yr adar - robin goch, titwod, mwyalch duon, dryw - wedi dechrau canu.

Daeth golau'r prynhawn â blodau gwanwyn llachar allan: tomenni o friallu melyn golau, cennin Pedr gwyllt, blodau'r gwynt cain yn nodio yn yr awel. Gwyrddni dail ffres, mor ddwys, mor fywiog.

Mae glaswellt newydd wedi ymddangos ar feddau noeth, mae rhedyn yn dechrau datblygu, garlleg gwyllt yn tyfu'n helaeth. Mae'n hyfryd iawn.

Des i o hyd i rywbeth diddorol hefyd: pelenni tylluan. Rwy'n eithaf siŵr eu bod nhw o dylluan frech felly, bysedd wedi'u croesi... efallai y bydd gennym dylluanod yn bridio yn y goedwig eto eleni. Rwy'n gobeithio hynny.

Bydd ein Dydd Sul Gwirfoddoli nesaf ar 3ydd Mai, o 11am tan 3pm fel arfer. Bydd clychau'r gog yn eu blodau a bydd y goedwig yn brydferth. Rydym yn cynnal diwrnod gwirfoddoli ychwanegol ddydd Sadwrn 16eg Mai, felly os nad yw dydd Sul yn ddiwrnod da i chi, beth am ddod wedyn? Dewch i ymuno â ni os gallwch chi! Bella



Violet — Before



Violet — After



Wood Anemones



Cherry Blossom

www.eternalforest.org; email eft@eternalforest.org

01758 612006 or 07579 008325 (Bella)

Office: 133 High Street, Bangor, Gwynedd LL57 1NT

Facebook @Claddfagoedwigol.WoodlandburialsWales